

o dud 18

mwyaf gwerthadwy ymhlith y Cymry.

On dâ ymlaen:

nid i ddiwedd yn unig y mae priodoli hyn, ond i ddiffyg chwaeth ac egni i ddarllen a chefnogi llenyddiaeth Gymraeg. Ni chlepanier hynny wrth Sais rhag ofn i'r gwyr o'r Llyfrau Gleision glywed.

Beiai Emyr Llydaw

"Ysgrifenydd a pherchnogion y cylchgronau Cymreig" am beidio ag annog y Cymry i ddarllen Cymraeg.

"Pam," meddai "bod y perchnogion mor fyr eu hanogaethau idd y Cymry i arfer eu hiaith ... oblegid os na fydd darllenwyr Cymreig, i ba ddiben y cyhoeddir eurgronau Cymroaidd?"

Byddai anogaethau o'r fath meddai, yn fwy buddiol o lawer na'r holl 'faldordd' ar bynciau crefyddol.

Cynyddu wnaeth y duedd i ddarllen Saesneg yn hytrach na Chymraeg wrth i ddylanwadau eraill ddod i danseilio safle'r Gymraeg yng nghymoedd Gwent. Er bod mwy o lyfrau Cymraeg mwy amrywiol yn ymddangos, mae'n amlwg bod y mwyafrif o'r Cymry eisoes wedi dewis y Saesneg.

A chyda chynnydd aruthrol yn nifer y mewnfudwyr o Loegr yn y chwedegau a'r saithdegau ni allai dylanwad cynyddol y wasg Saesneg ond dwysau effeithiau'r Seisnigeiddio. Os edrychwn ni ar gynnwys rhai o lyfrgelloedd y sir yn y blynyddoedd fe welwn ni effaith hyn.

Un o'r sefydliadau addysgol mwyaf effeithiol yng Nglynebwy oedd y Sefydliad Gwyddonol a Llenyddol, a châl'r Gymraeg le dyladwy yn y gweithgareddau gydol y chwedegau. Serch hynny lleiafrif oedd y llyfrau Cymraeg yn y llyfrgell. Yn 1870-1 roedd 'na gant saith deg saith o lyfrau Cymraeg a mil chwe chant wyth deg ag un o lyfrau Saesneg.

Dengys yr ystadegau sy'n rhoi cyfrif o'r benthyciadau fod 'na dipyn mwy o fenthycy ar y llyfrau Saesneg hefyd. Ac mae'n ddiddorol nodi mai dim ond cynnodolion, llyfrau barddoniaeth a llyfrau crefyddol sy'n dod yn agos at fedru cystadlu o ran nifer â'r llyfrau Saesneg a fenthycwyd. Chwe gwaith y benthycwyd storiâu neu nofelau Cymraeg tra bu mil tri chant a dau o fenthyciadau ar y straeon a'r nofelau Saesneg.

* * *

ETO I GYD rhaid gochel rhag

tynnu darlun rhy dywyll o sefyllfa'r wasg Gymraeg yn y blynyddoedd hyn. Roedd nifer o gyfnodolion a phapurau Cymraeg yn para'n boblogaidd.

Os darllenwch chi'r papur Rhyddfrydol *Tarian* y *Gweithiwr* ar gyfer chwarter ola'r ganrif fe welwch chi bod gweithgareddau Sir Fynwy'n cael lle amlwg yn y colofnau: Hanesion am eisteddfodau, darlithoedd, dadleuon am amodau gwaith, am wleidyddiaeth, heb anghofio'r Golofn Ddychanol 'O Ben Cloe Mawr Tredegar' gan Myfyr Wyn — Ceiliog y Gwynt.

Mae'r erthygl gynta' a ymddangosodd ym mis Mawrth 1879 yn dechrau, "gan fy mod wedi cael ardeall fod *Tarian* y *Gweithiwr* yn meddu cylchrediad helaeth yma ..." Yn Aberdâr yr argraffwyd y *Darian* ond roedd cyfraniadau gan ohebwy'r o wahanol rannau o orllewin Sir Fynwy yn rhan annatod o'r papur.

Parhaodd colofn Myfyr Wyn drwy gydol yr wythdegau ac mae'n arwydd, nid yn unig o boblogrwydd y *Darian* yn yr ardal ond hefyd o fywiogrwydd bywyd Cymraeg y cylch. Serch hynny, wrth ddarllen rhifynnau'r nawdegau daw'n amlwg mai dim ond yng nghwm Rhymni, ac i raddau llai, Sirhywi a Thredegar yr oedd y bywyd diwylliannol

Cymraeg yn dal i ffynnu.

Prinhau mae'r cyfraniadau o'r Blaenau, Brynmawr a Glynebwy erbyn y cyfnod yma. Ac er bod adroddiadau am weithgareddau diwylliannol Cymraeg o'r prif drefi o hyd, prin y gellir dweud eu bod yn adiewyrcu bywyd Cymraeg cyflawn. Oherwydd, fel y gwelwn ni erbyn troad y ganrif roedd y boblogaeth Gymraeg yn y lleiafrif yn yr ardal ag eithrio yng nghornel eithaf y gogledd orllewin.

Roedd patrwm y mewnfudo a'r allfudo wedi tanseilio Cymreictod yr ardal yn ystod ail hanner y ganrif, ac wrth i'r Cymry ddysgu Saesneg a dechrau cefnu ar eu magwraeth Anghydfurfiol Gymraeg does ryfedd i'r wasg Gymraeg yn y sir ddirywio a chrebachu.

On dâ gyfran helaeth o'r ganrif ddiwethaf bu'r wasg Gymraeg yn gefn i fywyd diwylliannol cyfoethog yr ardal ddiwydiannol, a phan ddaw un o aelodau Cymdeithas Bob Owen rhyw ddydd i gyhoeddi cyfrol sylweddol ar hanes y wasg Gymraeg yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn sicr fe ddylai fod 'na bennod go faith am Sir Fynwy yn y gyfrol honno.



·Siop·y·Morfa·

109, Stryd Fawr, Y Rhyl, Clwyd, LL18 1TR
(0745) 339197 Rheolwr: D. Timothy

LLYFRAU AIL-LAW SAESNEG

- | | | | |
|---|-------|--|-------|
| 1. MUSIC IN WALES. Gol. P. Crossley-Holland, Llundain 1948 (Ysgrifau). | 2.00 | 15. Working-Class Wives. Margery Spring Rice. Arg newydd 1981. Llundain CM. | 2.00 |
| 2. WHAT IS A WELSHMAN? R.S. Thomas, CC CLI. | 2.50 | 16. THEY LIVED IN FLINTSHIRE: Huw Williams. Hughes a'l Fab 1960. Fel newydd. | 2.00 |
| 3. GREAT WELSHMEN OF MODERN DAYS: Syr(I) Thomas Hughes. Western Mail 1931. CM | 5.00 | 17. A MAN'S ESTATE: Emyr Humphreys. Readers Union. Llundain 1957 | 2.00 |
| 4. HOMES OF WALES, O.M. EDWARDS. Cyl. T. Euryl Jones, Hughes a'l Fab 1931 | 4.50 | 18. HISTORY OF TRADE UNIONISM 1666-1920. Webb W.E.A. 1919. Clawr cerdyn. | 5.00 |
| 5. WELSHMEN - from Earliest Times to Llywelyn - Thomas Stephens (Ail arg) 1901. Cyflwr da | 5.00 | 19. HENRY ROBERTSON, Pioneer of Railways into Wales. George Lerry. Croesoswallt 1949. | 3.50 |
| 6. A Case for the Balkanization of Practically Everyone - Zwerin. Llundain 1976 | 2.25 | 20. THE SONGS OF WALES. Roial Edishyn. Gol. Brinley Richards, Boosey & Co. 4ydd arg. 1884. | 10.00 |
| 7. MY GENERATION: Wil Paynter, Llundain 1972. CLI. | 3.00 | 21. ADDRESSES & SPEECHES by the late T.E. Ellis M.P. Wrecsam 1912. Cyflwr da. | 5.00 |
| 8. DAVID FFRANGCON-DAVIES: His Life and Book: Marjorie Ffrangcon-Davies. Llundain 1938. CLI. | 3.00 | 22. THE STORY OF MONTGOMERYSHIRE. E.P.C. County Series. Caerdydd 1916. | 3.00 |
| 9. THE WORKS OF ROBERT BURNS (5 cyfrol). Llundain 1888, 5 o engrafiadau. Tudalennau ymyl aur, mymryn o draul ar bob meingafn ond cyfrol di-nam tu fewn. | 30.00 | 23. THE LIFE & LETTERS OF SIR HENRY JONES: H.J.W. Hetherington, 4ydd arg. 1925. Cyflwr da. | 7.00 |

Casglwr Mawrth '89 - rhifau 86, 89, 90, 93., 94 i'w cynnwys eto (10-14)

BACHWCH NIHW GYN Y 'STEDDFOD

DD - Dim Dyddiad CLI - Copi Llyfrgell CM - Clawr Meddal Cludiant yn ychwanegol